

PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

Dyddiad: Dydd Mercher 27 Chwefror 2002
Amser: 2.00 hyd 4.30 pm
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

SAFLEOEDD O DDIDDORDEB GWYDDONOL ARBENNIG – PAPUR YMGYNGHORI YNGHYLCH GWEITHDREFNAU I LYWODRAETHU APELIADAU – CRYNODEB O'R YMATEBION, CHWFROR 2002

i. Pwrpas

Rhoi adroddiad i'r Pwyllgor ynghylch y cynigion ar gyfer is-ddeddfwriaeth a fydd yn amlinellu'r gweithdrefnau i ymdrin ag apeliadau a wneir yn erbyn camau gweithredu penodol Cyngor Cefn Gwlad Cymru o ran Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

ii. Crynodeb

Yn Atodiad 1 y papur ymgynghori [cyswllt i'r fewnrwyd yn http://assembly/aegis/Subject%20Index/Environment/countryside/sssi_appregslet.htm], cynigiwyd egwyddorion y rheoliadau a fydd yn amlinellu mewn deddfwriaeth y gweithdrefnau i ymdrin â'r apeliadau hyn. Ar y cyfan, croesawyd y cynigion hyn yn yr ymatebion.

iii. Amseru

Disgwylir i'r rheoliadau drafft gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Deddfau ym mis Mawrth.

iv. Cefndir

Ym mis Hydref 2001 cyhoeddodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei bapur ymgynghori cyhoeddus ar argymhellion i roi sail statudol i'r gweithdrefnau sy'n llywodraethu apeliadau o ran Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig dan Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 a Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Paratowyd arfarniad rheoleiddiol drafft ac fe'i cyhoeddwyd ar y fewnwyd. Gellir apelio dan yr amgylchiadau a ganlyn:-

- os gwnaed cais am ganiatâd i wneud gwaith sy'n debygol o andwyo Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, neu i ddiwygio neu ddiddymu caniatâd a roddwyd;
- os yw Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi cyflwyno rhybudd rheoli dan adran 28K Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981;
- os yw Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi cyflwyno rhybudd atal dan Atodlen 11 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn atal caniatâd bwriedig rhag cael ei weithredu.

Seiliwyd y cynigion ar weithdrefnau cyfredol i ymdrin ag apeliadau cynllunio yng Nghymru. Cyhoeddwyd y manylion ar wefan y Cynulliad ac fe'u hanfonwyd at 89 corff perthnasol.

Cafwyd wyth ymateb sylweddol. Mae copïau ohonynt ar gael yn Llyfrgell y Cynulliad a chyhoeddir crynodeb ohonynt ar wefan y Cynulliad. Ar y cyfan, croesawyd y cynigion. Mewn ambell ymateb gwnaed awgrymiadau adeiladol ynghylch y rheoliadau a chaiff y rhain eu hymgorffori. Yn ogystal cafwyd awgrymiadau adeiladol ynghylch gweithdrefnau perthnasol Cyngor Cefn Gwlad Cymru, a gaiff eu trosglwyddo iddynt, ac ambell ymholiad cyffredinol ynghylch Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Yr oedd sylwadau eraill y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad.

v. Cydymffurfio

Trosglwyddwyd i'r Cynulliad y swyddogaeth o baratoi Rheoliadau ar gyfer gweithdrefnau i ddyfarnu apeliadau dan Adrannau 28F a 28L Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981, fel ag y'i diwygiwyd.

vi. Camau gweithredu i'r pwyllgor pwnc

Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r ymatebion i'r Papur Ymgynghori ynghylch Gweithdrefnau i Lywodraethu Apeliadau o ran Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

ix. Cyswllt

Jill Thomas, Y Gangen Cadwraeth Natur, Yr Is-adran Cefn Gwlad, est 3172